# Cynllun gweithredu cyflawn

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin Glaswelltir

***Datganiad gweledigaeth***

Mae’r cynllun gweithredu cyfunol hwn ar gyfer cynefinoedd yn cynnwys: glaswelltir calchaidd yr iseldir; glaswelltir asid sych yr iseldir; dolydd yr iseldir; porfeydd crawcwellt a brwyn; a chorsydd pori’r arfordir a’r gorlifdir a glaswelltiroedd niwtral.
Gweledigaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ydy gweld cynnal a chadw’r ystod lawn o gynefinoedd glaswelltir sydd â’r gallu i gynnal cyfoeth am amrywiaeth o fywyd gwyllt, safleoedd presennol yn cael eu cadw a’u rheoli gydag ystyriaeth at fywyd gwyllt a lle bo’n briodol, safleoedd yn cael eu hadfer a/neu eu hehangu.

***Datganiad cryno***

Mae’r cynefinoedd hyn i gyd yn cyfrannu at y dirwedd gyfoethog a’r amrywiaeth cynefin a geir o fewn y sir ac yn cynnal rhai o’n rhywogaethau lleihaol mwyaf pwysig. Er bod llawer o laswelltir Cymru sy’n gyfoethog o rywogaethau wedi’i golli oherwydd dwysâd amaethyddiaeth, gan gynnwys draenio, aredig, ail-hadu ac ychwanegu cemegau, fe geir o hyd llecynnau o laswelltiroedd lled-naturiol neu wedi’u lled-wella, ynghyd ag ardaloedd sydd wedi’u dwyn yn ôl dan reolaeth ffafriol yn Sir Benfro.

Dydy safleoedd sy’n gyfoethog o ran rhywogaethau ddim wedi’u cyfyngu i laswelltiroedd a dorrir ar gyfer gwair, ond maen nhw hefyd yn cynnwys glaswelltiroedd niwtral a phorfeydd parhaol heb eu gwella lle mae pori da byw yn brif ddefnydd y tir. Mae’r glaswelltiroedd niwtral hyn sy’n weddill yn bwysig iawn ar gyfer rhywogaethau megis ffyngau glaswelltiroedd pan y’i rheolir yn briodol. Mae glaswelltiroedd lled-naturiol a rhai wedi’u lled-wella’n bwysig i anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan gynnwys y rhai hynny sy’n ddibynno ar dom anifeiliaid ac ystlumod sy’n bwydo ar y myrdd o bryfetach. Mae lefelau pori’n hanfodol i gynnal a chadw amrywiaeth safleoedd; mae modd eu difrodi trwy or-bori neu dan-bori, sy’n arwain at weiriau bras, rhedyn, mieri neu brysgwydd yn llechfeddiannu.

Caiff glaswelltir mwyaf dwys ei reolaeth ei dorri’n gynnar yn yr haf ar gyfer silwair ac felly’n anaddas ar gyfer adar sy’n nythu ar y llawr megis yr ehedydd gan y byddai wyau a chywion yr adar hyn yn cael eu dinistrio trwy dorri’r cnwd yn gynnar. Mae rheoli gwair yn draddodiadol yn golygu toriad hwyrach, sy’n caniatáu planhigion i hadu a chywion i hedfan y nyth.

Mae glaswelltir corsiog, y cyfeirir ato’n gyffredin fel rhos yng Nghymru, yn arbennig o bwysig i anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis glöyn byw britheg y gors. Mae rhosydd fel arfer yn ffurfio brithwaith cynefinoedd cymhleth sy’n cynnwys rhostir gwlyb a chorsydd yn Sir Benfro.

Ceir sawl dull gwahanol o reoli safleoedd glaswelltir, fel y nodir uchod. Dylai rheolaeth ardal gael ei lywio gan y trefniannau hanesyddol a ddefnyddiwyd ar bob safle er mwyn gwneud y gorau o botensial bioamrywiaeth; h.y. ni ddylid torri safleoedd porfeydd parhaol ar gyfer gwair ac ni ddylid gadael dolydd gwair heb eu torri fel porfeydd parhaol. Dan rhai amgylchiadau, er enghraifft ar rai corsydd pori arfordirol a gorlifdiroedd, yn hanesyddol ni fu unrhyw reolaeth, ac felly mae'n well eu cynnal trwy eu cadw heb eu pori.

---

## Targedau'r cynllun

| ***Cod*** | ***Targed*** |
| --- | --- |
| Glaswellt1ME | Cynnal maint presennol y cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol oddi fewn i Sir Benfro. (Mae'r targed yn cynrychioli dim colled net o gynefin CGB)<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Corsydd Pori'r Arfordir a'r Gorlifdir: Cynnal 797 Hectar erbyn 01/02/3011<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir: Cynnal 17 Hectar erbyn 01/02/3011<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir: Cynnal 656 Hectar erbyn 01/02/3011<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir: Cynnal 399 Hectar erbyn 01/02/3011<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs: Cynnal 2922 Hectar erbyn 01/02/3011<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar |

| ***Cod*** | ***Targed*** |
| --- | --- |
| Glaswellt2AC | Cynnal o leiaf cyflwr presennol cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol o fewn Sir Benfro. Cyflawni cyflwr ffafriol neu adferol cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol o fewn Sir Benfro.<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Corsydd Pori'r Arfordir a'r Gorlifdir: Cyflawni cyflwr 359 Hectar erbyn 01/02/2015<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar<br><br>***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir: Cyflawni cyflwr 11 Hectar erbyn 01/02/2015<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar |

***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir: Cyflawni cyflwr 272 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir: Cyflawni cyflwr 235 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 40 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs: Cyflawni cyflwr 1422 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 400 Hectar

| ***Code*** | ***Target*** |
| --- | --- |
| Glaswellt3RE | Adfer glaswelltir cynefin blaenoriaethol o laswelltir wedi'i led-wella neu'i esgeuluso nad ydy bellach yn cyfarfod â diffiniad o gynefin blaenoriaethol o fewn Sir Benfro. |

***Nod:*** Ar gyfer Corsydd Pori'r Arfordir a'r Gorlifdir: Adfer 90 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir: Adfer 0 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir: Adfer 1 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir: Adfer 469 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs: Adfer 40 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

| ***Cod*** | ***Targed*** |
| --- | --- |
| Glaswellt4EXlcg | 1ha Ailsefydlu glaswelltir gyda gwerth i fywyd gwyllt o laswelltir wedi'i wella neu âr (lle bo'n briodol). 1 ha 75% o gynefin sydd wedi'i ailsefydlu i fod yn gyfagos i Laswelltir Calchaidd yr Iseldir neu gynefin lled-naturiol arall. |

***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Calchaidd yr Iseldir: Ehangu 1 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

| ***Cod*** | ***Targed*** |
| --- | --- |
| Glaswellt4EXlm | Ailsefydlu glaswelltir gyda gwerth i fywyd gwyllt o laswelltir wedi'i wella neu âr (lle bo'n briodol). 75% o'r cynefin a ailsefydlir i fod yn gyfagos i Ddolydd yr Iseldir neu gynefin lled-naturiol arall 11 ha. 50% o'r ardal a ailsefydlir i gyfrannu at |

ddarnau o gynefin canlyniadol o 2 ha neu fwy o Ddolydd yr Iseldir 8 ha.

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir: Ehangu 11 Hectar erbyn 01/02/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 4.5 Hectar

| ***Cod*** | ***Targed*** |
|---|---|
| Glaswelltir4EXpmgrp | Ailsefydlu glaswelltir o werth i fywyd gwyllt o laswelltir wedi'i wella neu âr (lle bo'n briodol). 4 ha. 75% (3ha) o gynefin a ailsefydlir i fod yn gyfagos i PMGRP neu gynefin lled-naturiol arall. 50% (2ha) o'r ardal a ailsefydlir i gyfrannu at ddarnau o gynefin canlyniadol o 2 ha neu fwy o PMGRP.<br>***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs: Ehangu 4 Hectar erbyn 01/02/2015<br>***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar |

| ***Cod*** | ***Targed*** |
|---|---|
| GlaswelltSpp1ME | Cynnal ystod a/neu boblogaeth rhywogaethau glaswelltir allweddol. |

| ***Cod*** | ***Targed*** |
|---|---|
| GlaswelltSpp2EX | Cynnal ystod a/neu boblogaeth rhywogaethau glaswelltir allweddol. |

---

## Camau'r cynllun

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt02MeAc01 | Cynnal maint a chyflawni cyflwr ffafriol cynefinoedd glaswelltir trwy reoli pori, trefniadau torri a darparu isadeiledd.<br>***Statws:*** Ar waith (ar amser)<br>***Dyddiadau:*** 01/01/2008 - Presennol<br>***Sefydliad(au)***<br>Rôl arweiniol: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro<br>Rôl gefnogol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro<br>Cyngor Sir Penfro<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin |

Cymru

***Lleoliad(au)***

Waun Ddowrog (SoDdGA/AoDdGA)
Gwarchodfa Natur Creigiau Garn Turne (Lleoliad lleol – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (CGBLl))
Sir Benfro (Sir)
Maes Awyr Tŷ Ddewi (Lleoliad lleol- Cymru D / S Wales – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl))
Rhostiroedd Maes Awyr Tŷ Ddewi (SoDdGA/AoDgGA)

***Nod:*** Ar gyfer Glaswelltir Asid Sych yr Iseldir yng Ngwarchodfa Natur Creigiau Garn Turne (SM980273): Cyflawni cyflwr 3.63 Hectar erbyn 31/12/2026
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 3.63 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 20/04/2009

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir ar Faes Awyr Tŷ Ddewi: Cyflawni cyflwr 40 Hectar erbyn 01/12/2020
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 40 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 17/02/2010

***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs ar Waun Ddowrog (SoDdGA/CCGC): Cyflawni cyflwr 20 Hectar erbyn 31/12/2010
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 20 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 01/09/2008

***Nod:*** Ar gyfer Porfeydd Crawcwellt a Chyrs yn Sir Benfro: Cyflawni cyflwr 400 Hectar erbyn 01/01/2015
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 400 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 17/02/2010

***Cofnodion cynnydd diweddaraf pob sefydliad cofnodi:***

***Sefydliad cofnodi:*** Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

***Enw cyswllt:*** Mike Howe (Arweinydd Tîm Cadwraeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 05/02/2010 - 05/02/2010

***Cynnydd:***
Mae’r camau hyn yn cael eu cefnogi gan waith a wneir gan gylch peirianwaith Sir Benfro.

***Sefydliad cofnodi:*** Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Enw cyswllt:*** Bethan Cox (Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 05/02/2010 - 05/02/2010

***Cynnydd:***
Mae gwaith yn digwydd ar godi ymwybyddiaeth o’r

difrod mae *ivermectin* yn ei gael ar gyflwr ffafriol tir pori, wrth i sefydliad partneriaeth roi cyngor i dirfeddianwyr / rheolwyr tir.

***Sefydliad cofnodi:*** Cyngor Sir Penfro

***Enw cyswllt:*** Trevor Theobald (Swyddog Cadwraeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 30/07/2009 - 05/02/2010

***Cynnydd:***
Gweithio gyda thimau cynnal tiroedd i sicrhau bod mynwentydd eglwysi'n cael eu rheoli ar gyfer ffyngau glaswelltir, lle bo'n briodol.

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt02MeAc02 | Sicrhau rheoli cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol yn bositif trwy ddarparu taliadau cytundebau rheoli. |

***Statws:*** Ar waith (ar amser)

***Dyddiadau:*** 01/01/2003 - Presennol

***Sefydliad(au)***

| | |
|---|---|
| Rôl arweiniol: | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| Rôl gefnogol: | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| | Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro |

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

***Cofnodion cynnydd diweddaraf pob sefydliad sy'n cofnodi:***

***Sefydliad cofnodi:*** Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Enw cyswllt:*** Bethan Cox (Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 01/01/2003 - 05/02/2010

***Cynnydd:***
Mae cynlluniau rheoli a gynhelir gan bartneriaid Bioamrywiaeth Sir Benfro'n cynnwys cynllun cadwraeth PCNPA, cytundebau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, cytundebau adran 39 CCGC a chytundebau SoDdGA, cytundeb Adran 106 South Hook, YG Southwood, Tir Gofal / Glas Tir.

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt02MeAc03 | Adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael â materion gorfaethu yn |

codi o reoli tir amaethyddol cyfagos.

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 01/01/2003 - Presennol

***Sefydliad(au)***

| | |
|---|---|
| Rôl arweiniol: | Asiantaeth yr Amgylchedd |

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt03RE01Ex | Adnabod safleoedd addas lle gellir adfer / ail-greu glaswelltir lled-naturiol |

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 01/01/2003 - Presennol

***Sefydliad(au)***

| | |
|---|---|
| Rôl arweiniol: | Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro |

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt03RE02 | Adfer cynefinoedd glaswelltir i gyflwr ffafriol trwy waith clirio prysgwydd, ffensio, torri a phori priodol. (D.S.. Dydy clirio prysgwydd ddim ond fel arfer yn briodol os yn brysgwydd ifanc, e.e. mieri / y ddraenen ddu; yn ardaro ar gynefin CGB; a bod y gwaith clirio'n cael ei ddilyn gan reolaeth. Fe restrir y camau sydd wedi'u cysylltu â rheoli prysgwydd aeddfed yn y cynllun gweithredu ar gyfer cynefin coetir cyfunol). |

***Statws:*** Ar waith (ar amser)

***Dyddiadau:*** 01/01/2008 - Presennol

***Sefydliad(au)***

| | |
|---|---|
| Rôl arweiniol: | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |

***Lleoliad(au)***

Mynwentydd eglwys (Lleoliad lleol - Cymru D / S Wales – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (LBAP))
Sir Benfro (Sir)

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir mewn Mynwentydd eglwys: Adfer 10 Safle erbyn 01/01/2015

***Cofnodion cynnydd diweddaraf pob sefydliad sy'n cofnodi:***

***Sefydliad cofnodi:*** Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

***Enw cyswllt:*** Mike Howe (Arweinydd Tîm Cadwraeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 01/01/2008 - 11/08/2009

***Cynnydd:***
Rheolir 3 mynwent eglwys fel dolydd blodau gwylltion gan dîm cadwraeth PCNPA: Sandy Haven, Stagbwll, Llanstadwel.

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswellt03RE03 | Sicrhau defnydd priodol cymysgedd hadau a thechnegau lleol priodol mewn cynlluniau ail-greu glaswelltir. |

***Statws:*** Ar waith (ar amser)

***Dyddiadau:*** 01/01/2003 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Glaswelt04EX01 | Creu ardaloedd newydd o laswelltir lled-naturiol trwy gynlluniau creu cynefinoedd glaswelltir ar safleoedd priodol. |

***Statws:*** Ar waith (ar amser)

***Dyddiadau:*** 01/01/2005 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Mynwentydd eglwys (Lleoliad lleol - Cymru D / S Wales - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (LBAP))
Gerddi Jiwbilî Dwyrain Williamston (Lleoliad lleol - Cymru D / S Wales - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (LBAP))
Nant y Coy, Cas-blaidd (Lleoliad lleol- Cymru D / S Wales - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (LBAP))
Sir Benfro (Sir)

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir yn Nant y Coy, Cas-blaidd: Ehangu 3.5 Hectar erbyn 01/01/2005

***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 3.5 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 01/07/2009

***Nod:*** Ar gyfer Dolydd yr Iseldir yng  Ngerddi Dwyrain East Williamston (SN096051): Ehangu 1 Hectar erbyn 01/01/2007
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 1 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 07/07/2009

---


- Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar 25/07/2012 gan ddefnyddio System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) © 2004-2012